2008

**ADRAN A**


1. Sylwch ar y ddau hafaliad hyn:


$8^2 - 7^2 = 15 \times 1$ $\qquad$ $6^2 - 4^2 = 10 \times 2$

Faint yw $18^2 - 12^2$ ? $= 30 \times 6$ (18+12, 18−12)

a) $36 \times 1$ $\quad$ b) $18 \times 12$ $\quad$ c) $36 - 24$ $\quad$ ch) $30 \times 6$ $\quad$ d) $14 \times 11$

2. Yn y diagram hwn mae dau betryal yn amgau 5 ardal. Beth yw'r nifer fwyaf o ardaloedd y gellir eu hamgau trwy lunio dau betryal ar ddarn o bapur?





a) 5 $\quad$ b) 6 $\quad$ c) 7 $\quad$ ch) 8 $\quad$ d) 9

3. Mae 2008 yn flwyddyn naid. Roedd 27 Chwefror yn Ddydd Mercher. Pa ddiwrnod fydd 27 Ebrill?

a) Mercher $\quad$ b) Iau $\quad$ c) Gwener $\quad$ ch) Sadwrn $\quad$ d) Sul

Ll Ma Me I G Sa Su
27 28 29 | 1 2
3 4 5 6 7 8 9
10 11 12 13 14 15 16
17 18 19 20 21 22 23
24 25 26 27 28 29 30
31 | 1 2 3 4 5 6
7 8 9 10 11 12 13
14 15 16 17 18 19 20
21 22 23 24 25 26 27

4. Y rhif ym mhob bloc yw cyfanswm y ddau rif oddi tano.




Faint yw'r rhif A?

a) 3 $\quad$ b) 4 $\quad$ c) 5 $\quad$ ch) 6 $\quad$ d) 7

5. Eleni rydym yn dathlu bywyd a gwaith Robert Recorde (1510?-1558) a fu farw 450 o flynyddoedd yn ôl. Ganed Recorde yn Ninbych-y-pysgod, Sir Benfro, a daeth yn fathemategydd enwog.

Recorde a ddyfeisiodd yr arwydd hafal: =

Wrth bwyso'r botymau a ganlyn ar fy nghyfrifiannell rwyf yn cael yr ateb 8:


$$2 \times 2 = \ =$$

Faint yw'r ateb ar ôl i mi bwyso'r botymau hyn ar fy nghyfrifiannell?

$$2 \times 2 = \ = \ = \ = \ =$$

a) 14    b) 16    c) 32    ch) 64    d) 128

6. Arwynebedd y trapesiwm sy'n rhan o'r llun hwn yw 18 $cm^2$. Faint yw arwynebedd y rhombws sy'n rhan o'r llun mewn $cm^2$?




a) 6    b) 12    c) 18    ch) 24    d) 36

7. Mae $p$ yn rhif cyfan positif a $q$ yn rhif cyfan negatif. Pa un o'r canlynol yw'r mwyaf?


a) $p-q$    b) $q-p$    c) $p+q$    ch) $-p-q$
d) mae angen mwy o wybodaeth


8. Mewn ysgol mae cant o blant ym Mlwyddyn 8. Mae 60 o'r plant hyn yng nghôr yr ysgol ac mae 20 ohonynt yn y gerddorfa. Mae 12 o'r plant yn y côr a'r gerddorfa. Faint o blant sydd ddim yn y côr na'r gerddorfa?

a) 8    b) 20    c) 24    ch) 28    d) 32




9. Rwyf wedi lliwio un fertig o'r ciwb hwn. Pa ddau wyneb arall sydd wedi'u lliwio?






a) A, B b) A, D c) A, E ch) B, C d) B, E


10. Yn y llun hwn mae'r sgwariau bach i gyd yr un faint â'i gilydd. Pa ffracsiwn o'r sgwâr mawr sydd wedi ei liwio?



*9 sgwâr du*
*9 sgwâr gwyn*

a) ¼ b) ⅓ c) ½ ch) ⅔ d) ¾

11. Mae pob sgwâr sydd heb ei liwio yn cynnwys rhif rhwng 1 a 9. Ni ddefnyddir yr un rhif ddwywaith. Dangosir cyfanswm y rhifau yn y rhesi a'r colofnau. Pa rif yw A?





a) 1 b) 3 c) 5 ch) 7 d) 9


*Ysgol*: ........................................................................ *Dosbarth*: ...................................

*Enw*: ................................................................................................................................

**ADRAN B**

1  Chwiliwch am gymaint o ffyrdd ag sy'n bosibl i rannu'r sgwâr hwn yn ddau hanner.  Defnyddiwch linellau syth yn unig.  Rhaid i bob llinell gychwyn a gorffen ar ddot.  **NID OES DOTIAU AR Y CORNELI**.  Mae'r cyntaf wedi'i wneud i chi.





Mae'r pedwar plentyn Alis, Ben, Cerys a Dafydd yn eistedd mewn llinell ar bedair cadair. Mewn sawl ffordd wahanol y gallant drefnu eu hunain os na chaiff y ddau fachgen eistedd wrth ymyl ei gilydd? Nodwch y posibiliadau isod.

Ben Alis Cerys Dafydd
Dafydd Alis Cerys Ben
Ben Cerys Alis Dafydd
Dafydd Cerys Alis Ben

---

Ben Alis Dafydd Cerys
Ben Cerys Dafydd Alis
Dafydd Alis Ben Cerys
Dafydd Cerys Ben Alis

---

Alis Ben Cerys Dafydd
Alis Dafydd Cerys Ben
Cerys Ben Alis Dafydd
Cerys Dafydd Alis Ben